| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **29ain Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Lwfansau Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau am benderfyniadau cyhoeddi tabl lwfansau Aelodau ar gyfer y cyfnod 2014/15** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel yr adroddwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 9fed o Fehefin 2015, mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod gofynion ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi costau Aelodau yn flynyddol. Mae hyn mewn dau ran:

a) Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau y bwriedir eu talu yn y flwyddyn ariannol erbyn 31 Gorffennaf yn flynyddol
b) Cyhoeddi Gwybodaeth am y cyflogau a'r treuliau a dalwyd y flwyddyn flaenorol erbyn 30 Medi yn flynyddol.

1.2 Adroddwyd bryd hynny fod y wybodaeth ar gyfer y cyflogau y bwriedir eu talu am 2015/16 eisoes wedi eu cyhoeddi ar safle we'r Cyngor a'u bod yn cael eu hadolygu yn barhaus pan fo unrhyw newidiadau.

## 2. CYHOEDDI MANYLION LWFANSAU 2014/15

2.1 Bu i'r Pwyllgor drafod a chyd-weld y manylion ar gyfer cyhoddi'r wybodaeth am y lwfansau, gan benderfynu mai'r bwriad fyddai cyhoeddi gwybodaeth (fel a nodir isod) am lwfansau 2014/15 ar safle we'r Cyngor ac yn rhifyn mis Medi o Newyddion Gwynedd.

- darn ar ffurf cwestiwn ac ateb yn ceisio esbonio rhag-blaen faterion y dylid eu esbonio i'r cyhoedd.

- y tabl yn cynnwys y manylion am gostau yr Aelodau gan gynnwys colofn ychwanegol sy'n nodi os yw aelod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol neu beidio (ffurf √ neu × yn unig).

## 3. DIWEDDARIAD

3.1 Wrth i rifyn mis Medi o Newyddion Gwynedd gael ei ddwyn at ei gilydd, daeth i'r amlwg fod mwy o ddeunydd nag o ofod ar gael, ac y byddai'n rhaid blaenoriaethu'r hyn fyddai'n cael ei gyhoeddi. Blaenoriaethwyd y wybodaeth trwy ystyried beth oedd bwysicaf i'w gyfathrebu gyda phobl Gwynedd.

3.2 O ganlyniad, penderfynwyd ei bod yn angenrheidiol neilltuo y rhelyw o'r gofod ar gyfer Her Gwynedd, mater sydd yn bwysig iawn i'w esbonio yn gywir i drigolion Gwynedd.

3.3 Fodd bynnag, neilltuwyd gofod penodol yn Newyddion Gwynedd hefyd ar gyfer egluro fod y wybodaeth am dreuliau aelodau ar gael ar safle we y Cyngor (gan

hyrwyddo’r wybodaeth ar dudalen flaen y safle we), yn ogystal a chodi ymwybyddiaeth trwy twitter fel bod unrhyw un sydd â diddordeb yn gwybod ei fod yno.

3.4 Gellir cadarnhau hefyd fod y wybodaeth eisoes wedi ei gyhoeddi ar safle we’r Cyngor dan y cyfeiriad isod: www.gwynedd.gov.uk/treuliau

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dderbyn y wybodaeth.